# Adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion

**Dyddiad y cyfarfod:** **11 Chwefror 2026**

**Teitl:** **Polisi Tâl Gweithlu'r Cyngor**

**Awdur:** **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr**

**Penderfyniad a geisir**

a) Fod y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i'r Cyngor llawn fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2026/27.

**Cefndir**

1. Ers 2012, mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwn yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

2. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl ar gyfer 2012/13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

3. Gofynnir i'r Pwyllgor hwn felly ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2026/27 a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn.

**Prif Swyddogion**

4. Mae codiadau cyflog blynyddol ar gyfer swyddi prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt ac felly mae gan bob swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan *'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol presennol'*. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Ym mis Gorffennaf 2025 daeth y cyflogwyr a'r undebau sydd yn cynrychioli prif swyddogion i gytundeb ar gynnydd tâl ar gyfer y flwyddyn 2025/26, sef cynnydd o 3.2% ar gyflog blynyddol pob prif swyddog. Mae hi'n ddyddiau cynnar ar y trafodaethau ar gyfer 2026/27, gyda'r broses negodi rhwng y cyflogwr a'r undebau ar lefel y DU yn cymryd lle ar hyn o bryd.

**Swyddi o dan lefel prif swyddog**

5. Mae cyflogau staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel prif swyddogion yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar Gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Yn union fel prif swyddogion, mae gan staff sydd yn gweithio i'r telerau hyn yr hawl cytundebol i'r codiadau cyflog sydd yn cael eu pennu. Yn ystod haf 2025 daeth yr undebau a'r cyflogwr i gytundeb ym mis  ar gynnydd o 3.2% ar gyflog blynyddol pob aelod staff. Cytunwyd hefyd i ddileu pwynt 2 o'r strwythur tâl, gyda hynny i ddod yn weithredol o fis Ebrill 2026 ymlaen. Yn yr un modd ag ar gyfer prif swyddogion, mae hi'n ddyddiau cynnar ar y  trafodaethau ar gyfer 2026/27.

**Argymhelliad**

6. Bod y Pwyllgor yn cynnig y Datganiad o Bolisi Tâl drafft i'r Cyngor fel un i'w fabwysiadu ar gyfer 2026/27.